
RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL: 41/2019
DYDDIAD CYHOEDDI: 10/9/2019

# Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru Cam 3, Haf 2019 – Crynodeb

**Beth yw’r Baromedr Twristiaeth?**

Mae Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru wedi ei gynllunio i roi adborth cyflym ynglŷn â'r ffordd y mae'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru yn perfformio ar adegau allweddol yn ystod y flwyddyn. Mae'r cam ymchwil hwn yn ymwneud â'r haf.

Mae cwmni Strategic Research and Insight, asiantaeth ymchwil annibynnol o Gaerdydd, wedi cyflawni 800 cyfweliad teleffon gyda busnesau twristiaeth yn y sectorau canlynol: llety â gwasanaeth, hunanddarpar, safleoedd carafanau a gwersylla, hosteli, atyniadau, darparwyr gweithgareddau a bwytai, tafarnau a chaffis.





**Tymor da i'r diwydiant**

Mae’r rhan fwyaf o fusnesau (79%) wedi cynyddu neu gynnal lefelau eu hymwelwyr yr haf hwn. Ymysg y rheiny a nododd gynnydd mewn ymwelwyr, roedd oddeutu chwarter (26%) yn nodi'r tywydd fel rheswm. Fodd bynnag, mae'r tywydd hefyd yn cael ei nodi fel ffactor allweddol o ran perfformiad ymysg yr un rhan o bump a nododd lai o ymwelwyr. Dywedodd oddeutu un o bob chwech (16%) o fusnesau a nododd gynnydd mewn ymwelwyr fod ‘mwy o bobl yn aros yn y DU’ yn ffactor, ac esboniodd rhai fod y bunt wan yn dylanwadu ar hyn. Fodd bynnag, mae ansicrwydd ynghylch Brexit yn cael ei nodi fel ffactor allweddol o ran perfformiad gan oddeutu un rhan o bump a nododd lai o ymwelwyr.

**Delwedd gyson ar draws pedwar rhanbarth Cymru**


Yn gyffredinol, mae perfformiad y diwydiant yn cael ei adlewyrchu ar draws pedwar rhanbarth Cymru (Gogledd, Canolbarth, De-orllewin, De-ddwyrain). Nid yw'r canlyniadau rhwng y rhanbarthau'n amrywio'n sylweddol.




**Perfformiad arbennig o dda i'r sector llety â gwasanaeth**

Mae oddeutu dau o bob pump (41%) o fusnesau llety â gwasanaeth wedi gweld cynnydd mewn ymwelwyr yr haf hwn, sef cyfran uwch na ffigurau sectorau llety eraill. Y tywydd oedd y rheswm mwyaf cyffredin a nodwyd.

Ymddengys nad oes yr un sector ar i lawr ar y cyfan, sy'n dangos bod tymor llwyddiannus yr haf wedi lledaenu i bob rhan o'r diwydiant twristiaeth.




**Diffyg paratoi am Brexit heb gytundeb**

Mae'r rhan fwyaf o fusnesau twristiaeth yng Nghymru'n gwneud dim i baratoi ar gyfer y posibilrwydd o Brexit heb gytundeb, yn enwedig y rheiny yn y de-orllewin a'r canolbarth. Cynhaliwyd y rhan fwyaf o'r cyfweliadau cyn i AS bleidleisio o blaid deddfwriaeth i geisio atal gadael yr UE heb gytundeb.

Ar y cyfan, mae'r hyder ar gyfer yr hydref yn 'weddol' ym mhob sector. Cyhoeddir adroddiad llawnach ar y cam ymchwil hwn yn hwyrach ym mis Medi.

Adroddiad ymchwil llawn: Lydall, A. (2019). Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru – Cam 3, Haf 2019.

Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR adroddiad rhif 41/2019
Ar gael yn: https://llyw.cymru/baromedr-twristiaeth

Mae'r safbwyntiau a fynegwyd yn yr adroddiad hwn yn perthyn i'r ymchwilwyr ac nid o reidrwydd Llywodraeth Cymru

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:
Tîm Ymchwil a Mewnwelediad
Croeso Cymru
Grŵp Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol
Canolfan QED, Ystad Trefforest
Pontypridd, Rhondda Cynon Taf
CF37 5YR

E-bost: ymchwiltwristiaeth@llyw.cymru

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN digidol 978-1-83933-147-3